# RHAGOLWG

Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mawrth 30 Ionawr 2007]

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2007 penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6**

**nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cod Ymarfer (Tai Ymddeol Preifat) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tir Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2007**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Brysrewedig (Cymru) 2007**

**Y Datganiad Busnes Drafft**

**Dydd Mawrth 6 Chwefror a dydd Mercher 7 Chwefror 2007**

**Dydd Mawrth 13 Chwefror a dydd Mercher 14 Chwefror 2007**

Toriad Hanner Tymor 19-23 Chwefror 2007

Dydd Mawrth 27 Chwefror a dydd Mercher 28 Chwefror 2007

**Dydd Mawrth 6 Chwefror 2007**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 ac yn ychwanegu rheoliad newydd atynt sy'n darparu ar gyfer gwneud adroddiadau ar y cyd â'r

Comisiynydd newydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru pan fo'r naill a'r llall ohonynt yn gweithredu mewn perthynas â'r un mater. Mae cymal tebyg yn rheoliadau arfaethedig Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r diffiniad o "Brif Weinidog Cymru" yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

- **Cynnig i gymeradwyo Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gweithdrefnau sydd i'w dilyn a gofynion sydd i'w bodloni gan yr awdurdodau lleol wrth wneud Gorchmynion gatio o dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, bydd darpariaethau Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, sy'n mewnosod y darpariaethau newydd am orchmynion gatio i Ddeddf Priffyrdd 1980, hefyd yn dod i rym. Mae darpariaethau hanfodol Deddf 1980 yn galluogi'r awdurdodau lleol i gyfyngu ar hawl tramwy'r cyhoedd dros briffyrdd penodol (drwy gyfrwng rhwystr ffisegol lle bo hynny'n briodol) sy'n hwyluso troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu mewnosod i Ddeddf 1980 yn atal hawliau dros dro ac yn caniatáu i Orchmynion gael eu hamrywio neu eu dirymu pan fo amgylchiadau'n newid neu'n gwella.

**Cynnig i drafod y tair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2007**

Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddf Tai 2004 sy'n berthnasol i Gynlluniau Blaendal Tenantiaeth. Dywed Adran 212 o'r Ddeddf “The appropriate national authority must make arrangements for securing that one or more tenancy deposit schemes are available for the purpose of safeguarding tenancy deposits paid in connection with shorthold tenancies”. Bydd y cynlluniau yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac yn cynnwys un cynllun gwarchod ac un neu ragor o gynlluniau yswiriant. Yn unol ag adran 213 o'r Ddeddf, bydd yn ofynnol i landlord sy'n gosod eiddo ar sail tenantiaeth fyrddaliad, ac sy’n cymryd blaendal, ddiogelu'r blaendal gyda chynllun cymeradwy. Mae Adrannau 214 a 215 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer achosion llys a chamau i'w cymryd am beidio â chydymffurfio. Bydd y Gorchymyn yn cychwyn y gofyniad uchod i wneud trefniadau ar gyfer cynlluniau blaendal tenantiaeth a daw i rym ar 6 Ebrill 2007 yn y ddwy wlad.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tai (Blaendal Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3**

Mae’r  Gorchymyn yn rhagnodi’r wybodaeth y bydd yn rhaid ei throsglwyddo i’r tenant mewn perthynas â’r cynllun blaendal tenantiaeth ynghlwm wrth y blaendal, cydymffurfiaeth y landlord ag unrhyw ofynion cychwynnol sy’n ofynnol yn unol â’r cynllun a’r modd y rhoddir y darpariaethau sydd yn adrannau 212-215 ac Atodlen 10 o Ddeddf Tai 2004 ar waith.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tai (Blaendal Tenantiaeth) (Cyfradd Llog Penodedig) 2007 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3**

Mae’r Gorchymyn yn pennu’r gyfradd llog ar gyfer dychwelyd y blaendaliadau. Pennwyd y gyfradd yn unol â Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr, llai 2.32%. Cyfrifwyd y gyfradd hon ar sail metrics cynigion a gyflwynwyd gan ddarparwyr y cynllun.

**Cynnig i drafod y pedair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991, gan gyflwyno Rheoliadau newydd ar gyfer Cymru yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn gydgysylltiedig â diwygiadau a wnaed i dair set arall o Reoliadau, sef: Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007, Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007 a Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007 a dylid eu hystyried yn becyn i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau statudol o dan Ddeddf Plant 2004.

Mae'r Rheoliadau yn cryfhau trefniadau'r awdurdodau lleol i leoli plant, i roi ystyriaeth arbennig i iechyd y plentyn a'i anghenion addysgol ac yn arbennig, unrhyw anghenion o ran iechyd meddwl neu o ran anghenion addysgol arbennig. Maent yn ymestyn rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol gan gyflwyno lefel uwch o archwilio i'r broses lleoli ac adolygu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Paneli a gafodd eu cynnull i ystyried lleoliadau y tu allan i'r ardal yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, bod hysbysiadau yngln â lleoliadau, trefniadau ar gyfer asesiadau iechyd, cofrestru â meddyg teulu a chael cyfle i weld deintydd oll wedi digwydd yn unol â'r amserau statudol a bennwyd, bod cofnodion iechyd ac addysg y plentyn yn cael eu trosglwyddo pan fydd y plentyn yn symud lleoliad a bod unrhyw anghenion iechyd meddwl a nodwyd yn cael eu diwallu.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Achosion Plant 1991, mewn perthynas â Chymru, gan gyflwyno Rheoliadau ar gyfer Cymru yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn gydgysylltiedig â thair set arall o Reoliadau, sef: Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007, Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007; a Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007. Dylid eu hystyried yn becyn i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau statudol o dan Ddeddf Plant 2004.

Mae newidiadau yn y Rheoliadau yn golygu y bydd lefel newydd o archwilio gan y Swyddog Adolygu Annibynnol i sicrhau bod y gofynion newydd o dan Reoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 yn cael eu bodloni'n llawn. Mae’r rhain yn cynnwys: sicrhau y cydymffurfir â'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â lleoliadau'r Panel y tu allan i'r awdurdod; bod cyfle i’r plentyn weld deintydd; a lle bo'r plentyn mewn cartref i blant, bod y gweithiwr cyswllt a bennwyd gan y cartref plant i hyrwyddo iechyd, addysg a lles y plentyn yn rhan o adolygiad y plentyn.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002. Mae'r diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau hyn yn gydgysylltiedig â diwygiadau a wnaed i dair set arall o Reoliadau, sef: Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007; Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007; a Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007 a dylid eu

hystyried yn becyn i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau statudol o dan Ddeddf Plant 2004.

Yn ôl y Rheoliadau hyn,  mae'n ofynnol i reolwyr a staff cartrefi plant gofrestru â Chyngor Gofal Cymru (y Cyngor) ac mae'n ofynnol bod ganddynt gymhwyster perthnasol erbyn dyddiad penodol. Yn ogystal, rhaid i gartrefi plant gael person penodol (gweithiwr cyswllt) i hyrwyddo iechyd, addysg a lles plant ar y cyd â gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaethau i sicrhau bod gan gartrefi plant isafswm o staff cymwysedig ac isafswm o staff parhaol a hefyd i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i weld deintydd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân gywiriadau i'r prif Reoliadau.

- **Cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2003. Mae'r Rheoliadau hyn yn gydgysylltiedig â diwygiadau i dair set arall o Reoliadau, sef: Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007; Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007; a Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007. Dylid eu hystyried yn becyn i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau statudol o dan Ddeddf Plant 2004.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnal cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd eilaidd ar gyfer plant sy'n dod o'r ardal ond sydd wedyn yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol. Mae'r rhain yn cynnwys: plant sy'n derbyn gofal; plant sy'n sâl mewn ysbytai annibynnol; a phlant â datganiad anghenion addysgol arbennig hyd at 21 oed. Bydd y dyletswyddau hyn yn berthnasol i blant sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae darpariaethau cyffelyb yn cael eu gwneud gan yr Adran Iechyd er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr roi adnoddau ar gyfer darpariaethau iechyd eilaidd ar gyfer plant sydd wedi'u lleoli dros y ffin yng Nghymru.

- **Cynnig i gymeradwyo Canllawiau Cyffredinol Llywodraeth y DU ar gyfer Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (10 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

- **Dadl am Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon : Adolygiad o Bêl-droed (60 munud)**

**Dydd Mercher 7 Chwefror 2007**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (yr Heddlu) 2007-08 (15 munud)**

- **Dadl am y Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig (60 munud)**

- **Dadl am Adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar Ddigartrefedd ymhlith Pobl Ifanc (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 13 Chwefror 2007</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

  Ø **Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007**

  Gwneir y Rheoliadau hyn i ddiwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2005 er mwyn adlewyrchu'r newid sylweddol o safbwynt cyfrifydda ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2007. Byddant yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau gwahanol ddatganiadau cyfrifyddol ac mae eisoes wedi'i adlewyrchu yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2006. Mae'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir yn nodi'r drefn gyfrifydda a'r datgeliadau ar gyfer holl drafodion arferol awdurdod lleol ac yn nodi'r arferion cyfrifydda priodol sy'n ofynnol ar gyfer y Datganiadau Cyfrifon, yn unol ag adran 21(2) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r newidiadau yn cynnwys sefydlu Cyfrif Incwm a Gwariant yn lle'r Cyfrif Refeniw Cyfun, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig yn lle'r Datganiad o'r Holl Symud yn y Cronfeydd Wrth Gefn a Mantolen yn lle'r Fantolen Gyfunol.

Bydd y gwelliant i Reoliadau 2005 yn sicrhau eu bod yn cydategu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir pan ddaw awdurdodau i gwblhau'r cyfrifon blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Ø Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 drwy ddiweddaru'r diffiniadau ar gyfer rhai Offerynnau Cymunedol y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hynny. Darperir pwerau gorfodi mewn perthynas â Rheoliadau Hylendid Bwyd yr UE a'r darnau cysylltiedig o ddeddfwriaeth weithredol a throsiannol.

- **Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007**

Mae’r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC (gan bennu’r egwyddorion sy’n llywodraethu’r gwaith o drefnu gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion sy’n dod i mewn i’r Gymuned o drydydd gwledydd). Mae’r Rheoliadau hyn yn mynnu bod cynhyrchion sy’n deillio o anifeiliaid a gaiff eu mewnforio o drydydd gwledydd, sy’n destun Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC, yn cael eu cyflwyno i Fan Archwilio cymeradwy ar y Ffin ar gyfer archwiliad milfeddygol er mwyn sicrhau bod y cynnyrch yn cydymffurfio â’r gofyniad mewnforio perthnasol.

Cyflwynwyd y Rheoliadau sy’n gweithredu’r Gyfarwyddeb hon am y tro cyntaf yn 2002, ac fe’u diweddarwyd yn rheolaidd, yn bennaf er mwyn cynnwys Penderfyniadau’r Comisiwn sy’n diwygio gofynion mewnforio’r Gymuned. Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-ddeddfu gyda newidiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2005.

**Ø Rheoliadau Bwydydd Brysrewedig (Cymru) 2007**

Mae’r Rheoliadau hyn yn berthnasol i ddarpariaethau gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn 37/2005 ar fonitro tymereddau wrth gludo, wrth eu rhoi mewn warws ac wrth gadw Bwydydd Brysrewedig (QFF) y bwriedir eu bwyta gan bobl. Golygir wrth Fwydydd Brysrewedig (QFF) gynnyrch bwyd sydd wedi bod drwy broses a elwir yn “frys-rewi”. Yn ystod brys-rewi, caiff y pwynt o grisialiad eithaf ei gyrraedd mor gyflym ag sy’n bosibl, gan ddibynnu ar y math o

gynnyrch. Rhaid i Fwydydd Brysrewedig hefyd ddwyn label yn nodi ei fod wedi cael ei frys-rewi at ddibenion gwerthu. Mae ffa a sglodion a baratoir yn y popty yn enghreifftiau o Fwydydd Brysrewedig. Fodd bynnag, nid yw Bwydydd Brysrewedig yn cynnwys hufen iâ nac unrhyw fath arall o iâ bwytadwy.

- **Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn lleihau nifer y Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgorau Cynghori ar Anheddau Amaethyddol o chwech, fesul sefydliad, i un. Y mae hefyd yn diwygio'r Gorchymyn Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol (Ardaloedd) 1974.

- **Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu dyddiad cyfarfod cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wedi ei gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2007.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000. Maent yn ei gwneud yn bosibl i ddiweddaru Cynlluniau Effeithiolrwydd Ynni Cartref (HEES) yng Nghymru drwy ymestyn y mesurau sydd ar gael (ee, i gyflwyno gwres canolog a gynhelir gan lo i'r Cynllun) ac i ymestyn y grwpiau o gleientiaid sy'n gymwys i gael cymorth o dan y Cynllun.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (35 munud)**
- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**
- **Dadl am Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru (30 munud)**

**Dydd Mercher 14 Chwefror 2007**

- **Cynnig i ethol aelod ar Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol (un munud)**
- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y T (5 munud)**
- **Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (Penodi) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r trefniadau ar gyfer penodi'r Comisiynydd ac ar gyfer cyfnod y swydd, ynghyd â'r rhesymau dros ryddhau'r Comisiynydd o'i swydd yn gynnar. Maent hefyd yn pennu bod yn rhaid ystyried barn pobl hyn yn ystod y broses benodi.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r pwer i'r Comisiynydd archwilio achosion pobl hyn penodol yng Nghymru, ynghyd â'r pwer i roi cymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, i berson hyn sy'n cwyno am gyrff penodol yng Nghymru neu sy'n anfon sylwadau atynt. Maent hefyd yn pennu'r trefniadau y mae'r Comisiynydd i'w gwneud o safbwynt ei berthynas â phobl hyn yng Nghymru, ynghyd â'r trefniadau a fydd yn gymwys i adroddiadau'r Comisiynydd.

**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swyddogaethau awdurdodau lleol nad ydynt i fod yn gyfrifioldeb i fwrdd, nad oes angen iddynt fod yn gyfrifoldeb i fwrdd neu nad ydynt i fod yn swyddogaethau i fwrdd yn unig (neu swyddogaethau gweithredol ar gyfer awdurdodau sydd â threfniadau gweithrediaeth). Maent hefyd yn cyflwyno diwygiadau i swyddogaethau awdurdodau lleol, yn arbennig y rheini sy'n gweithredu trefniadau amgen. Mae'r Rheoliadau hyn yn cydgyfnerthu'r Rheoliadau a wnaed yn flaenorol drwy ddisodli a dirymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd. Byddant yn galluogi i gyfrifoldebau gael eu rhannu'n well a mwy o hyblygrwydd i lywodraeth leol. Bydd cyfuno rheoliadau technegol o'r fath yn rhoi dogfen gyfeirio haws ei defnyddio i awdurdodau lleol.

Gwneir y Rheoliadau hyn ar y cyd â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 sy'n cyflwyno diwygiadau i swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swyddogaethau awdurdodau lleol nad ydynt i fod yn gyfrifioldeb i weithrediaeth neu nad oes angen iddynt fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth neu nad ydynt i fod yn swyddogaethau i weithrediaeth yn unig (neu swyddogaethau bwrdd ar gyfer awdurdodau sydd â threfniadau amgen). Maent hefyd yn cyflwyno diwygiadau i swyddogaethau awdurdodau lleol, yn arbennig y rheini sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth. Mae'r Rheoliadau hyn yn cydgyfnerthu'r Rheoliadau a wnaed yn flaenorol drwy ddisodli a dirymu Rheoliadau Trefniadau Amgen Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd. Byddant yn galluogi i gyfrifoldebau gael eu rhannu'n well a mwy o hyblygrwydd i lywodraeth leol. Bydd cyfuno Rheoliadau technegol o'r fath yn rhoi dogfen gyfeirio haws ei defnyddio i awdurdodau lleol.

Gwneir y Rheoliadau hyn ar y cyd â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 sy'n cyflwyno diwygiadau i swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (45 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Grant Cronfa Datblygu Rheoli Perfformiad Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2007-08 (10 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i**

**Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 27 Chwefror 2007</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan Jane Hutt, y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Gyfle Cyfartal: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal: Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl (30 munud)**

Trafodwyd yr Adroddiad yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 16 Ionawr 2007.

- **Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 min)**

  Ø **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tir Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007**

  Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r eithriadau dros dro i'r gwaharddiad a orfodir gan Ddeddf Tir Comin 2006 ar hollti hawliau tir comin oddi wrth y tir dan sylw.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2007**

  Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995 yng Nghymru i weithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/33/EC, sef y pedwerydd diwygiad i Gyfarwyddeb 95/45/EC, sy'n gosod meini prawf (manylebau) penodol o ran purdeb lliwiau a ddefnyddir mewn bwydydd ledled yr UE.

  Nod y Gyfarwyddeb yw diwygio'r meini prawf o ran purdeb ar gyfer dau liw: Sunset Yellow FCF (E110) a Thitaniwm Deuoscid (E 171). Mae Sunset Yellow FCF yn lliwydd y gellir ei ychwanegu at fwydydd i beri i'r bwyd newid lliw. Mae'n llifyn tar glo synthetig ac azo sy'n ddefnyddiol mewn bwydydd a epleswyd y mae'n rhaid eu cynhesu. Caiff ei ddynodi gan y rhif E, E110, a gall achosi adwaith alergol. Mae Sunset Yellow FCF weithiau'n bresennol mewn diod ffrwythau oren a diodydd meddal, marsipan, Swiss roll, jam bricyll, losin, pecynnau o gawl ac mewn pecynnau o saws. Mae Titaniwm Deuocsid yn fwyn gwyn naturiol a gaiff ei ddynodi gan y rhif E, E171. Caiff ei ddefnyddio fwyaf fel llifyn gwyn mewn bwyd, ac mae'n bresennol mewn tabledi a chapsiwlau, caws colfran a Mozzarella, past dannedd a hefyd mewn losin, lle caiff ei ddefnyddio'n aml fel ffin rhwng gwahanol liwiau.

**Cynnig i drafod y tair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2007**

  Wrth bennu bil treth gyngor ar gyfer annedd, cymrir yn ganiataol bod dau oedolyn neu fwy yn byw yno. Os mai un oedolyn yn unig sy'n byw yno, rhoddir gostyngiad. Ni chyfrir gweithwyr gofal penodol sy'n rhoi gofal neu gefnogaeth drwy gysylltiad â'r Goron, ag elusen neu ag awdurdod lleol wrth gyfrif nifer yr oedolion sy'n byw mewn annedd wrth benderfynu a ddylid rhoi gostyngiad. Ar hyn o bryd, ni chaiff gofalwyr o'r fath, sy'n ennill £36 yr wythnos neu lai, eu hystyried. Bydd y Rheoliadau hyn yn cynyddu'r ffigur hwnnw i £44, yn unol â chwyddiant.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007**

Bydd yr Offeryn hwn yn diwygio'r Rheoliadau presennol sy'n ymwneud â'r trothwyon ariannol perthnasol wrth bennu swm y didyniadau oddi wrth enillion wrth ddefnyddio Gorchymyn Atafaelu Enillion i adennill treth gyngor nas talwyd. Ar ôl i orchymyn dyled gael ei ddyfarnu, gall awdurdodau bilio gyfarwyddo cyflogwyr i adennill y dreth gyngor nas talwyd yn uniongyrchol o gyflog gweithiwr. Mae'r swm y dylai cyflogwyr ei ddidynnu o gyflog gweithiwr o dan Orchymyn Atafael Enillion (AEO) wedi'i bennu yn y Rheoliadau, ac mae'n dibynnu ar lefel enillion net y gweithiwr. Bydd y Rheoliadau hyn yn cynyddu lleiafswm yr enillion yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Cyfartalog Enillion.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2007**

Wrth bennu bil treth gyngor ar gyfer annedd, cymrir yn ganiataol bod dau oedolyn neu fwy yn byw yno. Os mai un oedolyn yn unig sy'n byw yno, rhoddir gostyngiad. Ni chaiff prentisiaid eu hystyried wrth gyfrif nifer yr oedolion sy'n byw mewn cartref wrth benderfynu a ddylid rhoi gostyngiad. Ar hyn o bryd, ni chyfrir prentis sy'n ennill £160 yr wythnos neu lai, a rhaid i'r prentis fod yn ennill llai o lawer na'r hyn y byddant yn debygol o'i ennill pe bai ef/hi wedi ennill y cymhwyster dan sylw. Bydd y Gorchymyn hwn yn cynyddu'r isafswm a enillir i £195 yr wythnos, yn unol â chwyddiant, a bydd yn dileu'r gofyniad i ennill llai o lawer na'r cyflog y disgwylir i'r prentis ei ennill yn y dyfodol. Bydd hefyd yn ei gwneud yn glir y dylid cynnwys lwfansau â chyflog wrth asesu faint y mae prentis yn ei ennill.

Bydd y Gorchymyn hwn hefyd yn newid y diffiniadau o 'sefydliadau addysgol penodedig', 'addysg bellach' a 'chynorthwywyr ieithoedd tramor' er mwyn cymhwyso'r diwygiadau a wnaed gan ddeddfwriaeth a wnaed ers Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) 1992 (Gorchymyn 1992). Mae diwygiad pellach yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y corff sy'n achredu cymwysterau yng Nghymru a'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm sy'n achredu cymwysterau yn Lloegr.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cod Ymarfer (Tai Ymddeol Preifat) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn yn cymeradwyo Cod Ymarfer y Gymdeithas Rheolwyr Tai Ymddeol (ARHM) (ac eithrio atodiadau 4-6) ar gyfer rheoli tai ymddeol preifat. Mae'r Cod yn nodi'r hyn a ystyrir yn arferion gorau o ran rheoli yn y sector tai ymddeol preifat, yn ogystal ag amlygu unrhyw

ofynion deddfwriaethol y mae angen i reolwyr gydymffurfio â hwy.

Nid yw atodiadau 4 i 6 y Cod wedi'u cymeradwyo eto am nad ydynt yn berthnasol at ddibenion adran 87 o Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (50 munud)**

- **Dadl a enwebwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 28 Chwefror 2007**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (30 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (15 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Debate on the Health and Social services Committee`s Report on the Mental Health Bill (60 munud)**

- **Dadl fer a ohiriwyd o 17 Ionawr 2007 (30 munud)**

**NDM3398 Sandy Mewies (Delyn): "O Geiniog i Geiniog" – Pam fod llythrennedd ariannol yn bwysig.**

- **Y ddadl fer (30 munud)**